CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL
A GYNHALIWYD AR 12 EBRILL 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Angharad Jones Leefe, fu'n cadeirio'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Gareth John (cyswllt fideo), Angharad Jones Leefe, Alun Lenny (cyswllt fideo), Miriam Moules (cyswllt fideo) a Barry Williams.

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Clerc y Dref a Rheolwr Cyllid

396. Ymddiheuriadau

Dim.

397. Datgan buddiannau.

i. Cyng. Miriam Moules ar gyfer Eitem 399(ii) cais Cynllunio PL/003786.
ii. Cyng. Gareth John ar gyfer eitem 399(i) cais cynllunio PL/03576.
iii. Cyng. Alun Lenny ar gyfer eitem 399 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

398. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.

Dim materion yn codi.

Adroddiad Clerc y Dref

399. Ceisiadau Cynllunio

i. PL/03576 - 1. Polytwnel masnachol sy'n wynebu'r De, 9.14 metr o led x 18.29 metr o hyd (Cyfanswm 167.17 metr sgwâr) 2. Dim giât wrth fynedfa'r fferm, 15 metr o led x 30 metr o hyd llawr caled ar gyfer llwytho, parcio a symud cerbydau . (Cyfanswm 450 medr sgwâr) 3. Ffordd breifat , 3.6 medr o led x 100 medr o hyd, yn cael ei adeiladu i gysylltu mynedfa'r fferm a lleoliad y Polytunnel yn y llain nesaf o dir i gefnogi gweithgareddau ffermio o fewn yr uned tir amaethyddol hon. (Cyfanswm o 360 metr sgwâr) - Tir gerllaw, Penlan Fach, Heol Alltycnap, Caerfyrddin, SA31 3QY. *Datganodd y Cyng. Gareth John ddiddordeb yn y cais hwn fel cymydog i'r eiddo*.

Cynigiodd Barry Williams y dylai'r ymateb i'r Adran Gynllunio nodi bod y Cyngor Tref yn ymwybodol o bryderon y gymuned leol ynglŷn â'r cais

cynllunio hwn a hoffai ofyn i'r cais ddod gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng, Miriam Moules, roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

ii. PL/03786 - Estyniad unllawr arfaethedig yn y cefn - 6, The Grove, Caerfyrddin, SA31 3JH. *Datganodd y Cyng Miriam Moules fuddiant fel cymydog i'r eiddo*. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

iii. PL/03679 - Estyniad Deulawr Arfaethedig a Gwaith Cysylltiedig. 17 Heol Salem, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3HS. *Datganodd y Cyng. Gareth John fuddiant gan fod yr eiddo yn rhannu ffin ag aelod agos o'r teulu.* **DIM GWRTHWYNEBIAD**

iv.PL/03604 - Newid defnydd i ddefnydd preswyl. Gosod dwy ystafell ymolchi, un ar y llawr cyntaf, un ar yr ail. Tynnu bwrdd plastr llaith ac ailosod distiau pwdr. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

400. Materion Priffyrdd

i. **Cau ffordd dros dro – Y Goedlan, Caerfyrddin**. **NODODD** yr Aelodau y bwriad i gau'r ffordd.

401. Materion Trwyddedu

i. Math o Gais:- Cais am Drwydded Safle, Thai Wok, 18 Myrddin Crescent, Caerfyrddin SA31 1DX. Manylion y cais:- Cais am nwyddau yn unig: Gwerthu Alcohol – Dydd Llun i Ddydd Sul 11:00-00:30 Lluniaeth Hwyr y Nos – Dydd Llun i Ddydd Sul 11:00-00:30. Penderfynodd y Pwyllgor **WRTHWYNEBU**'r cais am drwydded tra'n aros am eglurder ynghylch y sefyllfa gynllunio ar gyfer y busnes hwn.

Nodyn: *Derbyniwyd hysbysiad gan Adran Trwyddedu CSC bod yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais hwn yn ôl ar 14.04.22.*

402. Desg Wybodaeth i Ymwelwyr – Neuadd Ddinesig San Pedr

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cynnig i gadw a rheoli gwybodaeth i dwristiaid yng nghyntedd Neuadd Ddinesig San Pedr. Cynigiodd y Cyng. Miriam Moules mai arddangosfa wedi'i gosod ar wal fyddai'r ffordd orau o arddangos y wybodaeth tra'n lleihau'r amhariadau i unrhyw weithgaredd yn y neuadd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gareth John; roedd pawb o blaid ac **ARGYMHELLWYD** y cynnig i'r Cyngor.

403. Cais am gefnogaeth y Cyngor i Barcio am Ddim

Mae gohebiaeth wedi dod i law oddi wrth Menter Gorllewin Sir Gar yn gofyn am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Tref mewn perthynas â'r diwrnod y mae'n cynnal

ei ‘Gwyl Canol Dre’ blynyddol, sef y 9fed o Orffennaf 2022. **CEFNOGWYD** y cais gan yr Aelodau.

404. Claddedigaethau yn Mynwent Caerfyrddin

NODODD yr Aelodau'r adroddiad gan gydnabod y gwaith ychwanegol ar gyfer yr holl staff oedd yn rhan ohono yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

405. Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC).

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am fewnbwn gan bob Cyngor Tref a Chymuned yn gofyn am farn; pa HTC yn eich ardal Tref neu Gymuned y mae eich Cyngor yn eu hystyried yn flaenoriaeth uchel? Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i’r llwybrau troed nad oedd yn rhan o raglen cynnal a chadw’r Cyngor Tref ac **ARGYMHELLWYD** blaenoriaethu’r llwybrau canlynol:

i. Llwybrau Troed 61/16 a 61/17 ym Mhyllau Cwmoernant.
ii. Llwybr Troed 61/22 yn ardal Lime Grove Avenue a Phencadlys Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.
iii. Llwybrau Troed 61/20 a 61/21 Trefechan.
iv. Llwybr Troed 61/23 Ardal Gorffwys Teithwyr.
i. Llwybr Troed 61/28 Stad Davies Tre Ioan i alluogi mynediad cliriach i'r goedwig.

406. Byrddau Cyfathrebu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cynigiodd Miriam Moules y dylid cefnogi’r cais i arddangos y byrddau ac eiliwyd gan y Cyng. Gareth John, pawb o blaid ac **ARGYMHELLWYD** y cynnig i'r Cyngor.

407. Adroddiad Swyddog Digwyddiadau a Llesiant

Bu'r Aelodau'n ystyried yr adroddiad a'i **NODODD.** Gofynnwyd am adroddiad byr ar fenter LocalMotion ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.32 y.h.